Llywodraeth Cymru

# Ymateb Ysgrifenedig

## Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

24/01/2023

Ymddangosodd Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, o flaen Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 7 Rhagfyr 2022. Yn dilyn yr ymddangosiad hwn, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor, Paul Davies AS, at y Gweinidog a gofyn am ragor o wybodaeth.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru..

# Cynnwys


**1. Ardrethi Busnes .......... 3**

**2. Cymorth i fusnesau ddatgarboneiddio .......... 4**

**3. Buddsoddiad cyfalaf .......... 8**

**4. Adolygiad Argyfwng o Gyllideb yr Alban .......... 10**

**5. Costau Byw a’r Warant i Bobl Ifanc .......... 11**

# 1. Ardrethi Busnes

"Byddem yn ddiolchgar pe gallech esbonio pa ystyriaeth a roddwyd gennych i fynd ymhellach o ran ardrethi busnes na'r mesurau a gyhoeddwyd ar gyfer Lloegr, yn hytrach nag efelychu'r mesurau hyn."

Bydd cefnogaeth ar gyfer cyfraddau annomestig yn cael ei ddarparu drwy rewi'r lluosydd ar gyfer 2023-24, ar gost o fwy na £200m dros y ddwy flynedd nesaf. Byddwn hefyd yn darparu dros £140m o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru. Bydd trethdalwyr cymwys yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig o 75% drwy gydol 2023-24. Yn dilyn ailbrisio cyfraddau annomestig 1 Ebrill 2023, rydym hefyd yn darparu cefnogaeth trwy ein cynllun Rhyddhad Trosiannol dwy flynedd ar gyfer trethdalwyr sydd â rhwymedigaethau uwch. Mae'r cynllun yn darparu £113m dros ddwy flynedd, gan gefnogi pob rhan o'r sylfaen treth drwy gynllun pontio cyson a syml.

I ddarparu'r pecyn hael o gefnogaeth a gyhoeddwyd ar gyfer trethi annomestig dros y ddwy flynedd nesaf, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ymhellach na fydden ni wedi gallu defnyddio cyllid canlyniadol yn unig. Rydym wedi ymrwymo £26m yn fwy yn ein cyllideb 2023-24 nag y byddwn yn ei dderbyn o ganlyniad i gyhoeddiadau Llywodraeth y DU. Mae hyn yn ychwanegol i'n rhyddhad parhaol sy'n darparu dros £240m o gefnogaeth bob blwyddyn, wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Fe wnaethon ni ystyried opsiynau fyddai'n mynd ymhellach fyth, er enghraifft drwy leihau'r lluosydd, ond nid yw opsiynau o'r fath yn cael eu hystyried yn fforddiadwy. O ystyried ystod y pwysau ar gyllid cyhoeddus yng Nghymru, roedd angen i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau anodd wrth baratoi ein Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. Mae'r pecyn cymorth yr ydym yn ei ddarparu yn gyfystyr â chyfran sylweddol o'r adnoddau sydd ar gael i ni dros y ddwy flynedd nesaf.

# 2. Cymorth i fusnesau ddatgarboneiddio

"Sut fydd arian Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru yn ategu ei gilydd?"

Bydd Banc Datblygu Cymru yn gweithio'n agos â gwasanaeth Busnes Cymru i sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o unrhyw gefnogaeth gyflenwol allai fod ar gael ochr yn ochr â chyllid a ddarperir drwy'r Banc. Bydd hyn yn cynnwys darparu manylion am unrhyw gynlluniau grant perthnasol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru lle mae'r cynlluniau ar gael. Mae llawer o achosion lle mae'r cyllid sydd ar gael trwy Fanc Datblygu Cymru yn ategu neu'n gweithio ochr yn ochr â chymorth grant sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Cronfa Buddsoddi Twristiaeth Cymru yw un enghraifft o hyn sydd wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus ers peth amser. Rydyn ni'n ymdrechu i sicrhau, drwy weithio'n agos rhwng Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru, fod busnesau yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

"A fydd cronfa Llywodraeth Cymru yn cynnwys grantiau, benthyciadau neu gymysgedd o'r ddau, a faint o arian fydd ar gael

Bydd cronfa Llywodraeth Cymru'n cael ei gweithredu gan Fanc Datblygu Cymru. Y cam cyntaf fydd cyfuniad o gynnig cyngor a benthyciadau i fusnesau, gyda £10m cychwynnol ar gael, y gellir ei gael ar raddfa os oes angen hynny yn seiliedig ar alw. Bydd Llywodraeth Cymru a'r banc hefyd yn adolygu'r gosodiad yn barhaus gan gynnwys potensial i gymhwyso arian cyfatebol trwy grant ymyrraeth fechan. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth i asesu'r safbwynt hwn.

"O ystyried y brwdfrydedd a fydd i gyllid o'r fath, yn ôl cyrff sy'n cynrychioli busnesau, sut fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod busnesau sydd â'r angen mwyaf yn elwa o'r cyllid hwn?"

Mae'r Banc wedi modelu'r gronfa ar y galw disgwyliedig yn seiliedig ar ymholiadau a data busnes sydd ar gael y bydd yn parhau i'w monitro a'u hasesu er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cefnogi'r ceisiadau gorau. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol, ac rydym yn barod i ehangu neu ddiwygio'r cynllun fel sy'n ofynnol yn seiliedig ar y galw.

"Sut fyddwch chi'n hyrwyddo'r cyllid hwn er mwyn sicrhau bod cymaint o fusnesau â phosib yn ymwybodol ohono cyn ei lansio?"

Bydd Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru yn hyrwyddo'r cynllun sydd i ddod ar y cyd trwy eu sianeli marchnata a chysylltiadau cyhoeddus gan gynnwys gwefannau, llinell gymorth, cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau newyddion.

> “O ystyried yr heriau y mae'r sectorau hyn yn eu hwynebu, byddem yn ddiolchgar pe byddech chi'n amlinellu sut rydych chi'n rhagweld y bydd y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn eu cynorthwyo, a pha gefnogaeth rydych chi'n meddwl y bydd angen ar y sectorau hyn o fis Ebrill 2023.”

Mae dull Llywodraeth Cymru o gefnogi busnesau gyda chostau byw cynyddol yn canolbwyntio ar y mesurau tymor hwy i helpu busnesau i ddod o hyd i ffyrdd o leihau costau a defnyddio ynni yn fwy effeithlon. Mae'r prif ysgogiadau i helpu busnesau drwy'r argyfwng ynni hwn, mynediad at fenthyca, trethu ffawdelw, rheoleiddio'r farchnad ynni, yn gyfrifoldebau Llywodraeth y DU. Ein blaenoriaeth yw cefnogi busnesau o bob maint i ddatgarboneiddio mor gyflym ac mor deg â phosibl.

Wrth roi tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar 7 Rhagfyr 2022, soniwyd am drethi busnes fel y "y brif broblem" sy'n wynebu cwmnïau yn ôl Consortiwm Manwerthu Cymru (WRC) a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) Cymru. Ond roedd canlyniadau yn arolwg diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o ran barn busnesau (12 Ionawr 2023) mewn ymateb i gwestiynau ynghylch prif bryderon busnesau, dywedodd busnesau Cymru bod prisiau ynni a chwyddiant yn bryderon llawer mwy cyffredin.

Er mwyn ymateb i'r pryderon hyn mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd y gefnogaeth yn parhau i fusnesau drwy ryddhad ardrethi busnes. Rydym yn ymwybodol fodd bynnag y gall rhyddhad ardrethi busnes gael y canlyniad anfwriadol o gynyddu gwerth eiddo, felly mae'n bwysig bod cymorth busnes ehangach yn canolbwyntio ar gynorthwyo busnesau i fod yn fwy gwydn yn y tymor hwy. Rydym felly wedi datblygu mesurau i gefnogi busnesau i fabwysiadu technoleg werdd ac i symud tuag at fod yn garbon niwtral, gyda'r nod o fusnesau'n arbed costau drwy ddefnyddio ynni'n effeithlon a lleihau dibyniaeth ar danwyddau carbon sy'n anwadal o ran pris ac yn gostus.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth i fusnesau drwy sawl menter gan gynnwys y rhai a ddarperir gan Busnes Cymru, sy'n darparu ystod o gyngor busnes cyffredinol, gwybodaeth a chyfeirio yn ogystal â mathau arbenigol o gyngor fel cynllunio wrth gefn ac effeithlonrwydd adnoddau i gefnogi busnesau yn ogystal â defnyddio band eang a mynediad at y Porth Sgiliau a Chyswllt Ffermio.

Mae Busnes Cymru yn cynnig ystod eang o gyngor a chefnogaeth ar bolisïau, arferion ac effeithlonrwydd adnoddau yn ogystal â gweithdai. Mae cyngor un-i-un yn cynnwys defnyddio ynni yn effeithlon, rheoli gwastraff, atal llygredd, materion cyfreithiol a thrwyddedau, systemau rheoli'r amgylchedd a ffynonellau cyllid. Mae parth newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer gwefan Busnes Cymru i gyfuno cynnwys a'r offer presennol sydd ar gael i gefnogi busnesau i leihau eu defnydd o adnoddau a chostau. Bydd y parth hwn yn ganolbwynt i unrhyw gyngor a chefnogaeth i fusnesau yn y dyfodol.

Bydd Banc Datblygu Cymru (DBW) yn cyflwyno cynnyrch newydd yn ystod Gwanwyn 2023 a fydd yn darparu benthyciadau Busnes Gwyrdd. Bwriad y Banc yw gweithredu'r Gronfa hon gyda chyfradd llog cystadleuol neu isel. Er y bydd cyfradd llog y benthyciadau yn fater i DBW benderfynu arnynt, byddant yn parhau i weithredu ar delerau masnachol ond gan gydnabod yr angen i sicrhau cydbwysedd o ganlyniadau cymdeithasol ac ariannol. O ran cyllid hyblyg, bydd DBW yn edrych yn fanwl ar seibiant ad-dalu posibl ar ddechrau'r benthyciad a sicrhau eu bod yn cynnig cyfalaf tymor estynedig gyda'r buddsoddiad yn cyd-fynd â'r cyfnod talu. Bydd DBW yn parhau i weithio ar draws Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd ar gyfer cyflawni lle y gallant ddod â gwerth ac atebion i uchelgeisiau polisi a chyflawni.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd y Cynllun Disgownt Biliau Ynni (EBDS) yn disodli'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni (EBRS) o 1 Ebrill 2023 ac y bydd yn rhedeg tan 31 Mawrth 2024. Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod y cynllun newydd yn cymryd agwedd gyffredinol, ac yn cynnwys elusennau a sefydliadau'r sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn poeni bod yr EBDS newydd yn llai hael na chymorth ynni blaenorol, sef gostyngiad fesul uned o ynni yn hytrach na chadw pris ynni ar bris targed fesul uned. Gan gefnogi'r pryderon hyn, roedd yn siom nad oes unrhyw gymhellion newydd i fusnesau fuddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni.

Er y gallai busnesau groesawu'r gefnogaeth hon, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn darparu hyder a sicrwydd dros y tymor hwy. Mae canlyniadau buddsoddiadau busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod ansicrwydd busnesau yn cyfyngu ar fuddsoddiad busnesau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith niweidiol ansicrwydd ac yn gweithio i fynd i'r afael â hyn drwy ddarparu cyfres o fesurau cymorth busnes i ddarparu sefydlogrwydd, gyda chefnogaeth rhagfynegi yn ein polisïau.

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth strategol hirdymor ar gyfer y diwydiant bwyd a diod sy'n canolbwyntio ar fasged eang o fesurau llwyddiant. Ymhlith y camau ymarferol rydym yn eu cymryd i gyflawni hyn mae Rhaglen Datblygu Masnach sy'n rhoi cymorth cynhwysfawr i wneuthurwyr a phroseswyr bwyd er mwyn sefydlu a thyfu gwerthiant yn y sectorau manwerthu a gwasanaeth bwyd. Rydym yn buddsoddi mewn gwybodaeth gynhwysfawr o'r farchnad i helpu busnesau i ddeall eu hamgylchedd masnachu, y llwybrau i'r farchnad ac, yn hollbwysig, sut y gallai tueddiadau yn y farchnad ddatblygu. Rydym hefyd yn darparu cymorth technegol i wella effeithlonrwydd ac i ddatblygu cynhyrchion newydd trwy Arloesi Bwyd Cymru.

Rydym yn cydnabod bod y defnyddiwr yn bwyta allan llai mewn ymateb i'r cynnydd parhaus yng nghostau byw. Lle y gallwn mae ein rhaglenni yn cefnogi darparwyr gwasanaethau bwyd a lletygarwch i arloesi a gweithredu i ddenu defnyddwyr yn ôl i'r lleoliadau hyn, fodd bynnag rydym yn derbyn bod hyn yn heriol iawn yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Ar wahân i'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi'r sector bwyd yn benodol, rydym yn bwriadu lansio Cynllun Cyflenwi Manwerthu yn fuan, a fydd yn canolbwyntio ar y sector manwerthu ehangach yng Nghymru ac yn cyfleu camau y bydd partneriaid Llywodraeth Cymru a'r Fforwm Manwerthu yn eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf i symud tuag at gyflawni'r weledigaeth o fanwerthu a'i aliniad i'r genhadaeth economaidd ehangach.

# 3. Buddsoddiad cyfalaf

"Yn sgil y dystiolaeth a gafwyd, byddem yn ddiolchgar i dderbyn amlinelliad o:

- Yr ysgogiadau polisi y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio I gefnogi buddsoddiad busnesau yn ystod yr heriau economaidd presennol, er mwyn cefnogi mwy o gynhyrchiant a thwf
- sut rydych chi'n bwriadu gweithio gyda busnesau i ddad-beryglu buddsoddiad"

Fel yr amlinellir yn fy ateb blaenorol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio darpariaethau sefydledig i gefnogi economi Cymru fel y rhai a ddarperir gan Busnes Cymru a'r cymorth ariannol sydd ar gael trwy Fanc Datblygu Cymru.

Mae gan wefan Busnes Cymru barth cyllid busnes sy'n cynnig arweiniad a gwybodaeth arbenigol i helpu pobl i nodi cyllid priodol yn ogystal â canfyddwr cyllid Canfod Cyllid | Drupal (gov.wales)

Mae Banc Datblygu Cymru (DBW) yn helpu busnesau Cymru i gael y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, i gryfhau, ac i dyfu ac yn darparu benthyciadau o £1k i £10m o amrywiaeth o gronfeydd sy'n cefnogi gweithgareddau datgarboneiddio. Maen nhw hefyd yn helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner cyllid cywir i fanteisio ar gyllid preifat gyda'i gyllid bwlch ei hun pan fo angen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu ei pholisïau economaidd i sicrhau ein bod yn darparu cymorth priodol gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a'r hinsawdd economaidd sy'n newid yn barhaus. Roedd cyllid yr UE a oedd ar gael yn flaenorol i Lywodraeth Cymru yn darparu mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth wedi'i dargedu a phrosiectau strategol hirdymor. Mae defnydd Llywodraeth y DU o bwerau cymorth ariannol i wario'n uniongyrchol yng Nghymru drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) ac o dan ei hagenda ffyniant bro yn arwain yn uniongyrchol at benderfyniadau gwario ar gymorth economaidd yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU ac nid gan Weinidogion Cymru sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd i wasanaethu pobl yng Nghymru.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi anrhydeddu ei haddewid yn y maniffesto i roi arian cyfatebol â maint cronfeydd yr UE i Gymru. Mae cronfeydd sy'n dod yn lle SPF yn cynrychioli diffyg ariannol o £1.1 biliwn i Gymru erbyn 2025 ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw fynediad i'r Gronfa i gefnogi ein rhaglenni drwy Gymru. Mae'r golled ariannol wedi'i gwaethygu gan gylchoedd blwyddyn yr SPF sy'n golygu nad yw prosiectau strategol hirdymor yn bosibl bellach. Yn hytrach, bydd y

Gronfa yn cefnogi prosiectau bach, tymor byr gyda llawer llai o werth economaidd a gwaddol.

Mae dadansoddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a gwerthusiadau annibynnol o gyfnod Amcan 1 yn pwysleisio y bydd buddsoddiad yn sicrhau mwy o ganlyniadau drwy lai o brosiectau strategol cenedlaethol, ar raddfa fawr yn hytrach na thrwy brosiectau lleol, ar raddfa fach.

Gall Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd yn dda, mae Porthladdoedd Rhydd yn enghraifft dda o gyd-ddylunio model sy'n parchu ein setliad datganoli. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU yn efelychu'r dull hwn o gyflwyno cronfeydd ôl-UE a chronfeydd eraill y DU gan ddefnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU.

O ystyried yr argyfwng economaidd a'r bwlch yn y cyllid cyhoeddus, mae angen ystyried cyfeiriad yr SPF yn y dyfodol, gan gynnwys y cynllun Lluosi, er mwyn sicrhau canlyniadau economaidd gwell. Yng Nghymru, roedd cronfeydd yr UE yn flaenorol yn cefnogi rhaglenni ledled Cymru sy'n hanfodol ar gyfer cynhyrchiant a thwf fel Busnes Cymru, prentisiaethau, y Banc Datblygu a'n rhaglenni arloesi; ond eto o dan drefniadau SPF nid yw Llywodraeth Cymru yn cael mynediad i gefnogi'r cynlluniau hollbwysig hyn.

# 4. Adolygiad Argyfwng o Gyllideb yr Alban

> "I lywio ein gwaith parhaus, byddem yn ddiolchgar o gael amlinelliad o'r canlynol:
>
> - i ba raddau y mae arbenigwyr economaidd annibynnol fel y Bwrdd Cynghori'r Gweinidog Economaidd wedi llywio datblygiad polisi Llywodraeth Cymru o ran cefnogi busnesau gyda chostau cynyddol
> - yr ystyriaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i ddilyn trywydd tebyg i Lywodraeth yr Alban."

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Gweinidogion (MAB) ar gyfer yr Economi i ddarparu cyngor allanol amserol, perthnasol ac arbenigol ar faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r economi, drwy nodi heriau a chyfleoedd economaidd presennol ac yn y dyfodol i ddatblygu economi Cymru a'i helpu i ffynnu. Mae ganddo aelodau gydag ystod eang o arbenigedd, yn amrywio o economegwyr i academyddion a'r proffesiynau hynny sy'n chwarae rolau allweddol yn yr economi a'i rhyngweithio â gwead cymdeithasol Cymru. Rydym yn awyddus bod pobl ifanc yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd, gan mai dyma yw eu heconomi, ac rydym yn falch bod gennym 2 aelod o dan 23 oed pan gawsant eu penodi.

Ynghyd â llunio cyngor a'i gyflwyno i Weinidogion, mae aelodau'r Bwrdd, yn ystod y 12 mis diwethaf, wedi trafod syniadau polisi allweddol ac wedi gweithredu fel dull o dderbyn cyngor ar gyfer datblygu polisi'r dyfodol, profi'r Genhadaeth Economaidd a heriau demograffig mwy hirdymor Cymru a'r DU. Maent wedi cynnig her gadarn a phrofi ein polisïau allweddol lle bo hynny'n briodol.

Ochr yn ochr â'r MAB, rydym am gael perthynas agos â rhanddeiliaid y diwydiant ac yn cyfarfod yn rheolaidd ag ystod eang o arweinwyr diwydiant ac Undebau Llafur sy'n cynrychioli buddiannau busnesau a gweithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi dull Llywodraeth yr Alban o ddatblygu eu gwaith o adolygu cyllidebau brys. Cofiwch bod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r mewnbwn gan ei phartneriaid a'i rhanddeiliaid yn y diwydiant, gan ddefnyddio y sianeli cyfathrebu agored sydd gennym gydag arweinwyr y diwydiant i ofyn am adborth ar ei pholisïau fel y bo'n briodol. Mae'r CBI yn un o nifer o grwpiau diwydiant i gael barn ganddynt pan fydd Llywodraeth Cymru yn cychwyn mesurau tebyg.

# 5. Costau Byw a’r Warant i Bobl Ifanc

“Yng ngoleuni’r dystiolaeth a gasglwyd gennym, ac i lywio ein gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol, byddem yn ddiolchgar pe gallech yn gallu ddarparu amlinelliad o'r canlynol:

- unrhyw newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd angen eu gwneud i sicrhau bod rhaglenni o dan y Warant i Bobl Ifanc fel Twf Swyddi Cymru+ yn opsiwn ymarferol i'r rhai sydd ar gyrion tlodi;
- eich asesiad o ddigonolrwydd y cymorth hyfforddiant, ac effaith bosibl hynny ar gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogadwyedd a hyfforddiant."

Rydym yn parhau i adolygu ein rhaglenni yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw.

Yn fwyaf nodedig, rydym wedi addasu Twf Swyddi Cymru a Mwy (JGW+) drwy saith ymyriad gyda'r nod o leihau'r heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu o ran cael mynediad a pharhau ar y rhaglen. Mae'r ymyriadau hyn yn amrywio o ariannu gweithgareddau cyfoethogi er mwyn cynyddu’r nifer sy'n manteisio ar raglenni, hyd at ariannu pryd o fwyd y dydd am ddim ar y safle i bob person ifanc sydd ar y rhaglen. I'r rhai sydd ei angen, mae cymorth ariannol a phersonol ychwanegol ar gael hefyd.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi cynnydd pellach yn y cymorth sy'n gysylltiedig â JGW+ cyn diwedd mis Ionawr.

Mewn mannau eraill, mae ein Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol yn cynnig cymorth cyfannol i unigolion, sy'n cynnwys, yn ôl y gofyn, atgyfeiriadau at gyngor am dai a dyledion ac i fanciau bwyd lleol. Mae timau cyflenwi hefyd yn hyrwyddo'r cymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Mae unigolion sy'n cael cymorth drwy'r rhaglenni hefyd yn gallu defnyddio cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer rhwystrau fel costau teithio a chynhaliaeth wrth ymgymryd â hyfforddiant, mynychu profiad gwaith neu gyfweliadau. Yn yr un modd gellir ariannu costau gofal plant tra bod unigolion yn ymgymryd â hyfforddiant ac mae costau cychwyn hanfodol i'r rhai sy'n dechrau hunangyflogaeth hefyd yn cael eu hariannu.

Mewn blwyddyn ers lansio'r Gwarant i Bobl Ifanc (YPG) rydym wedi gweld dros 20,000 o ymyriadau yn cael eu cyflwyno drwy ein gwasanaethau cyflogadwyedd yn unig, gyda dros 11,000 o bobl ifanc yn dechrau ar ein rhaglenni cyflogadwyedd.

Yn ystod y ffigurau diweddaraf (rhwng Gorffennaf a Medi 2022), o raglenni JGW+ a ddaeth i ben, cafodd 62% o'r rhai a oedd yn gadael canlyniad cadarnhaol yn seiliedig ar eu cyrchfan o fewn pedair wythnos ar ôl cwblhau'r rhaglen. Mae hyn yn

cynnwys y rhai sy'n symud i swydd sy'n derbyn cyflog sydd o leiaf ar Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Mae Cymunedau am Waith a Mwy (CFW+) wedi gweld gallu mentora ychwanegol i gefnogi pobl sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth. Mae dros 2,700 o bobl ifanc wedi cael eu cefnogi ers lansio'r YPG, gyda dros 1,300 yn mynd ymlaen i gyflogaeth hyd yma.

Erbyn Ebrill 2022, roedd yna eisoes 18,675 o brentisiaethau pob oed yn dechrau ers dechrau tymor y Senedd hwn. Rydym yn parhau i ddarparu buddsoddiad sylweddol yn ein rhaglen brentisiaethau flaenllaw - gan weithio yn erbyn cefndir o her economaidd ac ansicrwydd sylweddol, fydd yn gwaethygu wedi colli cyllid yr UE.

O ran prentisiaethau, ni fyddwn yn aberthu ansawdd er mwyn niferoedd, gan barhau â phrentisiaethau lefel uwch/gradd a cynhwysol ar ein fframweithiau – gan fonitro eu cwblhau yn unol â hynny.

> "Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd gennym, ac i lywio'n gwaith craffu ar y maes polisi hwn yn y dyfodol, byddem yn ddiolchgar petaech yn gallu nodi:
>
> - sut rydych chi'n sicrhau bod y Warant i Bobl Ifanc yn mynd i'r afael a gwahanol anghenion pobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o wahaniaethau rhanbarthol neu ar gyfer y rhai sydd ag anfanteision cymhleth.
> - Pa newidiadau, os o gwbl, rydych chi'n eu hystyried i sicrhau bod cefnogaeth yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf, a phryd y byddai'r newidiadau hynny'n cael eu gweithredu."

Rydym eisoes wedi gweithredu'n bendant ar ffyrdd o wella sut rydym yn adnabod y bobl ifanc hynny a allai fod angen cefnogaeth ychwanegol fwyaf.

Bydd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi'i adnewyddu yn chwarae rhan allweddol yn y broses o adnabod NEETs posibl yn yr ysgol a hyd at 18 oed.

Mae wedi'i greu o gwmpas deall eu hanghenion, gan roi cefnogaeth neu ddarpariaeth briodol ar waith a monitro eu dilyniant. Mae'r Fframwaith hefyd yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc a mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl ac yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hadnabod a'u cefnogi cyn iddynt gyrraedd pwynt o argyfwng.

Mae'n hyblyg ar gyfer gwahaniaethau rhanbarthol gydag awdurdodau lleol sy'n darparu'r arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith, tra bod gan bartneriaethau lleol rôl hanfodol wrth gefnogi.

Fel y nodwyd, mae CfW+ yn cael ei ddarparu gan Awdurdodau Lleol ac er ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhai sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf yn y farchnad lafur, mae gan yr Awdurdodau gyfle i deilwra darpariaeth i ddiwallu anghenion lleol gwahanol.

Rydym hefyd wedi comisiynu'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs) i gefnogi'r Gwarant Pobl Ifanc a dechrau gweithgarwch ymgysylltu i lunio darpariaeth y Warant o fewn eu hardaloedd. Gofynnwyd i'r RSPs ymgynghori â rhaglenni a phrosiectau er mwyn deall y cynnig sydd ar gael o fewn eu rhanbarthau. Bydd hyn yn galluogi cynghorwyr Cymru'n Gweithio, cynghorwyr Canolfan Byd Gwaith a gweithwyr ieuenctid i gyfeirio pobl at ddarpariaeth yn eu hardal leol.

I'r rhai hynny sydd ag anfanteision cymhleth, mae'n ofynnol i Cymru'n Gweithio fonitro'r holl atgyfeiriadau yn ôl oedran, rhyw, ethnigrwydd a statws anabledd, gan gynnwys data a dadansoddiad gan asiantaethau atgyfeirio a chyfraddau cyfranogiad meincnodi yn erbyn cyfartaleddau lleol a chenedlaethol; a chymryd camau cadarnhaol i wella cyfranogiad a chyrhaeddiad grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Mae rhaglenni fel JGW+ yn cynnwys gorfodaeth bod yn rhaid i Gontractwyr gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag anawsterau a brofwyd gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ac yn cael eu monitro'n rheolaidd.

Rydym hefyd wedi cyflogi rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl, a gefnogir gan Ymgynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru, i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chynorthwyo rhanddeiliaid ledled Cymru.

Gall rhaglen ReAct + ddyfarnu grant Cymorth Datblygu Personol (PDS) o hyd at £500, ochr yn ochr â'r grant hyfforddiant galwedigaethol. Nod PDS yw mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth nad ydynt yn gysylltiedig â sgiliau (mae'r rhain yn cael sylw trwy'r grant hyfforddiant galwedigaethol). Bydd ymgynghorydd Cymru'n Gweithio yn ystyried unrhyw rwystrau ychwanegol wrth gynnal y cyfweliad cyngor ac arweiniad.

Hefyd, rydym eisoes wedi ehangu'r garfan ReAct+ i gynnwys pobl ifanc 18-24 oed sy'n NEET. Mae gan y cymhelliant recriwtio cyflogwr 'gynnydd' o £1,000 sy'n cael ei ddyfarnu i gyflogwyr sy'n recriwtio person ifanc rhwng 18 a 24 oed neu berson sy'n ystyried eu hunain yn anabl. Mae'r 'cynydd' yn cynyddu i £2,000 os yw'r recriwt newydd yn 18-24 oed ac yn ystyried eu hunain yn anabl.

Dylid nodi hefyd bod colled flynyddol a amcangyfrif yn £50m o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd.

Rydym eisoes yn gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau pobl ifanc i CfW+ wrth i raglenni ESF rhanbarthol sy'n cefnogi pobl ifanc (ac yn wir rhai o bob oed) orffen. Mae darpariaeth y Gronfa Ffyniant a Rennir ymhell o fod yn barod i gamu i'r adwy ac ni fydd o faint digonol i ddisodli'r cronfeydd UE a gollwyd yn llawn.

> "Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro:
>
> - ganlyniadau eich sgyrsiau gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl yn hyn o beth;
> - sut rydych yn bwriadu gweithredu newid pendant ar gyfer pobl ifanc sydd angen cymorth iechyd meddwl neu gymorth lles i gynnal eu cyflogaeth neu hyfforddiant."

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn gyd-arweinydd ar y Fframwaith Ymgysylltu a Ddatblygiad Ieuenctid a grybwyllwyd uchod, ochr yn ochr â mi, Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a'r Gweinidog Newid Hinsawdd.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid, sy'n cefnogi cyflwyno'r Fframwaith. Cadarnhawyd cyllid YSG rhwng 2022 a 2023 a 2024 i 2025 ac mae'n cynnwys, £2.5 miliwn y flwyddyn i gefnogi iechyd meddwl emosiynol a lles trwy weithgareddau gwaith ieuenctid.

Mae gennym hefyd gymorth cyflogaeth dan arweiniad Iechyd i gefnogi rhwystrau cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd, mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-Waith sy'n unigryw i'r DU. Mae'n darparu cymorth mentora cymheiriaid a chymorth cyflogadwyedd i bobl sydd mewn adferiad o gamddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl. Gall cyflogwyr elwa o dri mis o gyngor a chymorth gan fentoriaid cymheiriaid os ydyn nhw'n cyflogi rhywun sy'n cael ei gyfeirio gan y gwasanaeth.

Gan adeiladu ar raglen lwyddiannus Cymru Iach ar Waith a chysylltiadau ehangach â Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym hefyd yn gweithio gyda Cymru Iach ar Waith ar daflenni gwybodaeth a chyngor arall i gyflogwyr er mwyn helpu i gefnogi lles pobl ifanc yn y gweithle. Rydym hefyd yn gweithio gyda hwy ar gefnogi ein trafodaethau grŵp ffocws y Sgwrs Genedlaethol.

Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid yn allweddol o ran ymyrraeth gynnar a chyfeirio. Caiff ei greu wrth adnabod pobl ifanc 11 i 18 oed yn gynnar sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) neu yn ddigartref, deall eu hanghenion, rhoi cefnogaeth briodol a/neu ddarpariaeth ar waith a monitro eu dilyniant.

Mae'r Fframwaith yn galluogi gweithwyr arweiniol i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc, drwy harneisio gwasanaethau ac adnoddau lles emosiynol a meddyliol yn ogystal ag ystod o gymorth mentora ac un i un.

Mae ein holl raglenni cyflogadwyedd a hyfforddiant hefyd yn cynnig mathau o gymorth a chyfeirio mewn perthynas â materion iechyd a lles. Ar gyfer rhai rhaglenni, fel JGW+, mae hyn yn cynnwys gweithgareddau cyfoethogi fel adeiladu

tîm, iechyd meddwl a gwytnwch llesiant, gweithgareddau corfforol a gweithgareddau hwyliog fel gweithgareddau awyr agored a datrys problemau.

Ar ben hynny, nod ein Hymgyrch Bydd Bositif yw rhoi negeseuon a chefnogaeth bositif i bobl ifanc i'w galluogi i ddechrau neu newid eu stori. Roedd yr ymgyrch yn ymateb i effaith COVID-19 ac mae wedi'i chynllunio i wrthsefyll y negyddiaeth am ragolygon swyddi a heriau iechyd meddwl y mae pobl ifanc yn agored iddynt..

"Byddem yn ddiolchgar petaech yn gallu amlinellu:

- sut rydych chi'n gwerthuso perfformiad gwasanaeth Cymru'n Gweithio, gan gynnwys pa adborth rydych chi wedi'i glywed am ba mor effeithiol y mae'n cyfeirio pobl ifanc at yr ystod lawn o raglenni sydd ar gael fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc;
- eich asesiad o ba mor effeithiol mae ysgolion, cyngor gyrfaoedd a darparwyr addysg bellach a hyfforddiant yn gweithio gyda'i gilydd i helpu dysgwyr i ddeall yr ystod lawn o opsiynau ar ôl addysg orfodol, ac a oes unrhyw feysydd y gellid gwella'r berthynas hon ynddynt;
- rhagor o fanylion am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynnwys ymyrraeth gynnar i'r Warant i'r Person Ifanc."

Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio bellach yn darparu un llwybr syml i gefnogaeth ynghyd â chyngor gyrfaoedd annibynnol proffesiynol. Fel y gwasanaeth annibynnol ar gyfer cyngor ac arweiniad gyrfaoedd mae mewn sefyllfa ddelfrydol i angori'r YPG i amrywiaeth o wahanol raglenni a chymunedau gwahanol ledled Cymru.

Cymru'n Gweithio sydd hefyd yn goruchwylio adroddiadau perfformiad amrywiol ar yr YPG. Mae Cymru'n Gweithio yn rhan o fudiad Gyrfa Cymru ac mae ganddo ficro-wefan Cymru'n Gweithio sy'n cynnwys dolenni sy'n symud cwsmeriaid yn llyfn rhwng y ddau safle yn dibynnu ar eu hanghenion neu eu pwrpas wrth ymweld â'r safle.

Mae bron i 11,000 o bobl ifanc wedi ymwneud â Cymru'n Gweithio ers i'r YPG ddechrau. I'r rhai sy'n cysylltu trwy Cymru'n Gweithio, rydym yn gwybod mai cyflogaeth yw'r gyrchfan fwyaf cyffredin, ac yna hyfforddiant wedyn addysg.

Comisiynwyd Wavehill, mewn partneriaeth â'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, yn 2019 i gynnal gwerthusiad parhaus sy'n ymchwilio i effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith Cymru'n Gweithio. Mae disgwyl i'r gwerthusiad barhau tan fis Medi 2023.

Mae Adroddiad 1 wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn cwmpasu:

- Theori newid ar gyfer y rhaglen.
- Dadansoddi gwybodaeth rheoli rhaglenni.

- Adolygiad o effaith COVID-19 ar y gwasanaeth.
- Deg astudiaeth achos o gyfranogwyr Cymru'n Gweithio.

Mae dau faes blaenoriaeth allweddol wedi'u nodi i'w harchwilio ymhellach fel rhan o gam nesaf gwerthusiad Cymru'n Gweithio, mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar:

Y cymorth sy'n cael ei roi i ffoaduriaid ac ymfudwyr; a

Y strwythur cyflenwi (gan gynnwys ystyriaethau ynghylch darpariaeth AB, cymariaethau rhwng darparu gwledig a threfol, a marchnata).

Cafodd pandemig COVID-19 nid yn unig effaith ddifrifol ar ddilyniant pobl ifanc ond hefyd gallu partneriaid i gydweithio er mwyn rhoi cyngor a hyrwyddo'r ystod o opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc.

Ym mis Hydref 2002, noddodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad Sgiliau Cymru - y cyntaf ers y pandemig – gan roi'r cyfle i bobl ifanc gwrdd â chyflogwyr lleol a chenedlaethol a darparwyr addysg o ansawdd uchel wyneb yn wyneb i gael cyngor gyrfa arbenigol a chynllunio eu gyrfaoedd. Eleni, gwelwyd dros 5,000 o bobl ifanc a 45 o arddangoswyr, sy'n golygu mai dyma'r digwyddiad gyrfaoedd, hyfforddiant a phrentisiaeth di-dâ mwyaf yng Nghymru.

Rydym hefyd yn parhau i gyflwyno ein menter pecynnau 'Troi Eich Llaw' mewn ysgolion sy'n defnyddio profiadau hwyliog a rhyngweithiol i annog plant ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â myfyrwyr coleg i ddysgu mwy am yrfaoedd a phrentisiaethau galwedigaethol. Mae pecynnau Troi Eich Llaw yn rhoi cipolwg go iawn a deniadol i ddysgwyr ar rai o'r opsiynau gyrfa mwyaf poblogaidd a chyffrous. Mae profiadau ar gael ar draws pum sector diwydiant, yn amrywio o'r cyfryngau i adeiladu, peirianneg, lletygarwch a gofal iechyd.

Un o'r meysydd lle'r oeddem yn nodi'r angen am gydgysylltu a chynrychiolaeth gwell oedd ein rhaglen Canolfannau Cyflogaeth. Ym mis Hydref 2022, gyda chefnogaeth £2.36m, bu inni lansio Canolfannau Cyflogaeth a Menter gwell i helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer byd gwaith. Y colegau sy'n darparu'r canolfannau ac mae nhw'n gweithio gyda phartneriaid allweddol, fel cyflogwyr, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio.

Byddant yn creu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â chyflogwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; cyflwyno llwybrau amrywiol i gyflogaeth drwy raglenni fel JGW+, prentisiaethau a Syniadau Mawr Cymru; darparu cyngor ac arweiniad un-i-un; ac annog dyheadau ar gyfer entrepreneuriaeth ymhlith dysgwyr drwy bencampwr entrepreneuriaeth ym mhob sefydliad.

Mae gan Gyrfa Cymru rôl allweddol o hyd yn y gwaith o hybu'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael, yn enwedig mewn ysgolion lle mae'n darparu cyfweliadau un i un, sesiynau grŵp a rhyngweithio gyda cyflogwyr, ymhlith pethau eraill.

Mae'r holl bartneriaid allweddol yn eistedd ar Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid YPG ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod datblygiadau newydd, problemau posibl, gwelliannau ac arferion gorau.

Fel y nodwyd mewn ymatebion blaenorol, mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi'i adnewyddu yn allweddol o ran ymyrraeth gynnar a chyfeirio.

Mae'n canolbwyntio ar ystyried presenoldeb, ymddygiad, a dangosyddion cyrhaeddiad. Yna, defnyddir data adnabod yn gynnar yn ystod y tymor mewn cyfarfodydd amlasiantaethol, gyda rhwydwaith o weithwyr arweiniol megis Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu Awdurdodau Lleol (EPCs), Gweithwyr Ieuenctid, staff Teuluoedd yn Gyntaf, staff Cymru'n Gweithio – ac mae pob un ohonynt yn gweithio gyda phobl ifanc yn ddyddiol yn eu hannog i ail-ymgysylltu.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid, sy'n cefnogi cyflwyno'r Fframwaith. Cadarnhawyd cyllid YSG rhwng 2022 a 2023 a 2024 i 2025 ac mae'n cynnwys, fesul blwyddyn:

- £3.8 miliwn ar gyfer gweithgareddau yn ymwneud â gwaith ieuenctid, gan gynnwys isafswm o £1.1 miliwn i'w wario ar weithgareddau sy'n ymwneud â'r Fframwaith
- £3.7 miliwn ar gyfer atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys cyllid ar gyfer cydlynydd digartrefedd ymhlith pobl ifanc ym mhob awdurdod lleol
- £2.5 miliwn i gefnogi iechyd meddwl emosiynol a lles drwy weithgareddau gwaith ieuenctid